



YSGOL GYFUN GYMRAEG
GLANTAF
CORON GWLAD EI MAMIAITH

Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

Heol y Bont, Ystum Taf
Caerdydd, CF14 2JL

Pennaeth/Head:
Mr Matthew H T Evans

029 2033 3090

ysgolgyfunglantaf@caerdydd.gov.uk

www.glantaf.cymru

Rhagfyr 2 2022

Annwyl Rieni / Warcheidwad,

Ymdeoliad hapus i Mr Alun Mitchell, ein gofalwr sy'n ymdeol yr wythnos hon. Mae Alun wedi cynorthwyo a chyfrannu yn helaeth at gymuned Glantaf dros ugain mlynedd a hoffem oll ddiolch iddo am ei waith a'i gwmi llawen dros y blynyddoedd!

Hamperi Nadolig

Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu hyd yma at ein hymgyrch hamperi Nadolig ond rydym angen MWY!! Byddem yn hynod o ddiolchgar petaech yn medru cyfrannu at yr ymgyrch a fydd yn helpu teuluoedd lleol a allai wynebu caledi dros yr ŵyl sydd o'n blaen. Rydym wedi rhannu rhestr o eitemau sydd eu hangen a diolch am bob cyfraniad.

HMS CYDAG – 9fed o Rhagfyr

Gair bach i'ch atgoffa ei bod hi'n ddiwrnod HMS **ddydd Gwener nesaf, Rhagfyr 9** pryd bydd yr ysgol ar gau i holl ddisgyblion. Dyma ddydd o hyfforddiant i holl ysgolion cyfrwng Cymraeg drwy Dde Cymru wrth i ni gydweithio ar baratoi at arholiadau TGAU gyda'r bwrdd arholi CBAC. Blaen-rybudd yn ogystal – fe fydd yr ysgol yn cau am **13.15** ar ddydd olaf y tymor, Rhagfyr 23.

Cyngherddau Nadolig: Rhagfyr 22

Rydym yn eich gwahodd yn gynnes i ymuno â ni ar gyfer ein cyngherddau Nadolig a gynhelir eleni yng nghapel y Tabernacl, yr Ais ar nos Iau, Rhagfyr 22 am 4.30pm ac eto am 6pm. Mae llythyr wedi ei anfon drwy ebost a gofynnwn i chi archebu tocynnau drwy *ParentPay*, £2 i oedolion a 50c i blant.

Etholiad Rhiant Lywodraethwyr

Llongyfarchiadau i Mrs Angharad Naylor, Mr Aled Walters, Mrs Bethan Webber a Mr Gareth Barham ar gael eu hethol yn rieni lywodraethwyr i'r ysgol. Edrychwn ymlaen yn fawr at gydweithio gyda chi.

Fforwm Busnes Glantaf

Lawnsiwyd y Fforwm Busnes ar Dachwedd 23, mae'n gynllun cyffrous iawn a gobeithio dros y blynyddoedd nesaf bydd rhai o'r cwmnïoedd yma yn gallu cyfrannu / cyfoethogi agweddau o'r cwricwlwm. Cydweithir ar y cychwyn gyda'r Adrannau Busnes a'r Fagloriaeth.



Fforwm Busnes Glantaf

Brechiad Ffliw – chwistrell trwyn Bl. 7-11, Rhagfyr 13-14

Diolch i'r rhai ohonoch sydd wedi anfon eich caniatâd. Y dyddiad cau ar gyfer hyn yw Rhagfyr 7. Os na fyddwch wedi anfon caniatâd cyn hyn, byddwch yn derbyn llythyr gan y Gwasanaeth Iechyd yn gofyn i chi fynd i glinic 'catch-up'. Dyma'r linc i roi caniatâd - <https://forms.office.com/r/T8xSny9s3x>

Fel y gwyddoch, bydd ffug-brofion Bl11-13 yn cael eu cynnal o ddydd Mercher, Rhagfyr 14 – Rhagfyr 20. – [Amserlen Ffug Arholiadau Blwyddyn 11 2022 \(1\).docx - Google Docs](#)

Bydd arholiadau y bore yn cychwyn am 10am a'r prynhawn am 12.30pm. Mae disgwyl i fyfyrwyr ymuno â gwrs 1 bob dydd, ond gall myfyrwyr adolygu gartref os nad oes ganddynt arholiad ar gyfnod bore neu prynhawn.

Noson Rhieni Bl. 9 – cynhelir y noson hon yn rhithiol ar nos Iau, Rhagfyr 15. Bydd y system yn cael ei hagor ar Ragfyr 9 fel y gallwch wneud apwyntiadau.

Band Pres Clwstwr Glantaf a Chyngerdd:

Cawsom ddiwrnod gwych ddydd Mercher diwethaf wrth i holl chwaraewyr offeryn pres ein clwstwr (Bl. 4 – 13) ddod ynghyd ar gyfer gweithdy band pres gyda Gwasanaeth Cerdd Caerdydd. Uchafbwynt y dydd oedd y cyngerdd hyfryd ddiwedd y prynhawn. Llongyfarchiadau i bawb a diolch i bawb a gefnogodd ac a fu'n hyfforddi.



Pontio Pres: Band Pres Unedig Clwstwr Glantaf!

Seremoni Gwobrwyo TGAU a Safon Uwch

Cynhelir ein Seremoni Gwobrwyo ar prynhawn Mercher, Rhagfyr 21 yn yr ysgol i Fl. 11 a 13 llynedd a bydd yn cychwyn am 2yp. Bydd mwy o fanylion i ddilyn, ond mae croeso i rieni ymuno â ni ar gyfer datllu llwyddiannau y disgyblion a wnaeth mor dda yn eu harholiadau yn Haf 2022!

Ymweliadau Adran Addysg Grefyddol – mae disgyblion wedi bod yn ymweld â'n eglwys lleol, Eglwys yr Holl Saint yn ddiweddar a hoffem ddiolch am y croeso cynnes.

Taith Glanllyn – treuliodd myfyrwyr y 6ed sy'n astudio Cymraeg 3 diwrnod ar gwrs addysgol lle cawsant gyfle i fynychu sawl darlith, ymweld â'r *Ysgwrn*, gwneud gweithgareddau yn ogystal â chyfarfod â disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg o ysgolion ar draws Cymru. Braff hefyd croesawu'r bardd Gruffudd Owen i wersi Bl11 ar gyfer gweithdy ar y Gynghanedd yr wythnos hon.

Adroddiad Cynnydd Bl 7-10

Bydd pob disgybl ym Ml 7-10 yn derbyn adroddiad ar gynnydd ddydd Mercher 21/12/22.

Holiadur Rhieni: [Holiadur rhieni / Parents questionnaire 2022 \(google.com\)](#)

Diolch i'r rhai sydd wedi llanw'r holiadur. Gweler uchod y linc i glywed eich barn fel rhieni Glantaf. Byddem yn hynod ddiolchgar o glywed eich sylwadau a'ch barn ar ein gwaith wrth i ni geisio gwella ein darpariaeth.

Llongyfarchiadau!

Yn dilyn tymor caled yn cystadlu yng Nghynghair Ysgolion a Cholegau Cymru, braff llongyfarch ein Tîm XV 1af ar orffen o fewn y pedwar tîm uchaf a byddant yn cystadlu am yr ail flynedd yn olynol ym Mhencampwriaeth y Plât Cenedlaethol. Pob lwc fechgyn yn y gêm ddydd Mercher nesaf! Llongyfarchiadau hefyd i Kane Griffiths Bl8 ar ddod yn Ail ym Mhencampwriaethau Pwysau Plu Taekwando Prydain yn ddiweddar ac i Ollie Bl10 sydd wedi cael ei dderbyn i'r 'Young Racing Drivers Academy YRDA' sy'n cael ei redeg gan Arden Motor Sports—tipyn o gamp ac ardderchog dros ben!

Yn gywir,

Meleri Wyn Jones
Pennaeth Cynorthwyol
Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf



Tîm XV 1af gorffen yn y pedwar uchaf Cynghair Ysgolion a Cholegau Cymru



Medalau arian i Ollie a Kane - rasio cartiau a Taekwondo